OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 3157

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Cyfathrebu Electronig) (Cymru) (Rhif 2) 2004

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Cyfathrebu Electronig) (Cymru) (Rhif 2) 2004 a daw i rym ar 1 Ionawr 2005.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i dir yng Nghymru.

### Diwygio rheoliadau sy'n ymwneud ag apelau cynllunio

**2.** Diwygir Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003(**1**) yn unol ag Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

### Diwygio rheoliadau sy'n ymwneud â hysbysiadau gorfodi ac apelau

**3.**—(1) Diwygir Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2003(**2**) yn unol ag Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Diwygir Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003(**3**) yn unol ag Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**))

*John Marek*
30 Tachwedd 2004 — Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) O.S. 2003/390 (Cy.52).
(**2**) O.S. 2003/394 (Cy.53).
(**3**) O.S. 2003/395 (Cy.54).
(**4**) 1998 p.38.